Pwyntiau Trafod Digwyddiad Ymwybyddiaeth Gymunedol

Ydych chi wedi penderfynu cymryd rhan neu drefnu digwyddiad? Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i gynnal sgyrsiau cyfeillgar â phobl a rhannu gwybodaeth am eu dewisiadau lleol ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu offer trydanol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod ailgylchu yn beth da, ac eisoes yn ailgylchu papur a phlastig, ond dim ond 45% o bobl sy'n meddwl bod ailgylchu trydanol yn hawdd. Gallwch helpu trwy rannu rhai awgrymiadau syml ar sut i'w wneud.

Isod, mae rhai awgrymiadau i'ch helpu chi i ddechrau'r sgwrs. Dim ond canllaw ydynt, nid rheol - ewch gyda'r hyn sy'n teimlo'n naturiol a gadewch i'r sgwrs lifo. Efallai y byddai'n syniad da argraffu hwn neu ei gael ar eich ffôn fel y gallwch gyfeirio'n ôl.

Mae croeso i chi dynnu ar unrhyw beth rydych chi wedi'i godi o'r cyflwyniad neu'r pecyn ymgysylltu - ac yn bwysicaf oll, mwynhewch!

Awgrym defnyddiol cyn i chi ddechrau - *defnyddiwch y **dynodwr safle** i chwilio am yr opsiynau atgyweirio, rhoi ac ailgylchu lleol yn eich ardal fel eich bod chi'n barod i'w rhannu â phobl.*

Agorwyr
• *Ceisiwch ei wneud yn bersonol, yn berthnasol a chysylltu ar brofiad a rennir. Osgoi "A alla'i ofyn cwestiwn i chi?" - yn lle hynny, dechreuwch gyda:* • Os ydych chi fel fi, mae'n debyg bod gennych lond lle o geblau ac offer trydanol eraill sydd heb eu defnyddio neu sydd wedi torri - mewn drôr anniben neu focs o dan y gwely? • *Gallwch hefyd rannu enghraifft e.e. roedd gen i ddrôr yn y gegin a oedd yn gymaint o lanast o hen geblau ac offer trydanol, yn glymau i gyd..* • NEU, oeddech chi'n gwybod bod gan aelwyd gyffredin yn y DU 30 o offer trydanol diangen sy'n casglu llwch? • NEU, ydych chi'n ansicr beth i'w wneud gyda'ch offer trydanol diangen?
Gwybodaeth allweddol - yr ateb

• **Rhoi neu werthu** offer trydanol sy'n gweithio gan ddefnyddio sefydliadau fel Freegle neu lwyfannau fel Vinted neu Facebook Marketplace.
• **Atgyweirio** offer trydanol y gellir eu trwsio ac **ailgylchu** unrhyw beth na allwch.
• Ni ddylid byth rhoi unrhyw beth sydd â phlwg, batri neu gebl yn y bin. Ailgylchwch bob amser - hyd yn oed y batris a'r ceblau eu hunain.

● Chwiliwch **Recycle Your Electricals** [neu sganiwch y cod QR - os oes gennych boster neu faner gyda chi] i ddod o hyd i safle a chod post defnyddiol lle gallwch ddod o hyd i un o 30,000 o fannau gollwng, ledled y DU i atgyweirio ac ailgylchu. ● Mae'n hawdd iawn:

- **A** - Gofynnwch i chi'ch hun a oes angen i mi gadw gafael ar hwn, a oes unrhyw fatris rhydd y gellir eu tynnu allan?
- **B** – Rhowch yr offer mewn bag – storiwch pob eitem yn barod I'w hailgylchu fel na fydd angen i chi fynd fwy nag unwaith.
- **C** - Gwiriwch i weld ble mae'ch man gollwng agosaf.

● **Er enghraifft - mae un [X] munud i ffwrdd -** neu safle arall yn eich ardal chi

Gwybodaeth a ffeithiau defnyddiol

● Ni ddylid byth rhoi offer trydanol yn y bin - maent wedi'u llenwi â deunyddiau gwerthfawr fel **aur, copr, lithiwm ac alwminiwm.**

● Mae offer trydanol cartref sydd yn cael eu taflu neu eu casglu yn costio **£488 miliwn** y flwyddyn i economi'r DU o ddeunyddiau crai gwerthfawr a gollwyd.

● Mae arbed deunyddiau o safleoedd tirlenwi nid yn unig yn lleihau gwastraff ond yn lleihau dibyniaeth ar fwyngloddio ar gyfer deunyddiau crai critigol sy'n niweidiol i'r amgylchedd ac i bobl.

● Mae batris ac offer trydanol sy'n cynnwys batris sydd yn cael eu rhoi yn y bin, fel *vapes* a brwsys dannedd trydan, hefyd yn achosi tanau peryglus pan fyddant yn cael eu malu neu eu difrodi mewn lorïau bin ac ailgylchu.

● Mae'r deunyddiau hyn yn hanfodol ar gyfer ein **dyfodol technoleg werdd** a gellir eu troi'n unrhyw beth o **baneli solar i feysydd chwarae plant.**

● Mae arbed offer trydanol o safleoedd tirlenwi yn lleihau allyriadau carbon, er enghraifft mae defnyddio copr wedi'i ailgylchu yn defnyddio **85% yn llai o ynni** na chopr mwyngloddio newydd.

● Pe bai'r holl offer trydanol diangen yn cael eu hailgylchu, byddai'n arbed allyriadau CO2 cyfatebol o dynnu **3.8 miliwn o geir oddi ar y ffordd.**

Llinellau cau

● Gyda'n gilydd gallwn arbed deunyddiau gwerthfawr, tacluso ein cartrefi ac achub y blaned!

● Lledaenwch y neges, dywedwch wrth ffrind!

Cwestiynau a ofynnir i chi

- **Oes gwir bwrpas i hyn?**
  - Gellir ailgylchu 75% o'r holl ddeunyddiau trydanol.
- **Onid ydyn nhw'n cael eu hallforio i Ghana?**
  - Ni ddylid allforio unrhyw offer trydanol. Mae gwneud hynny'n anghyfreithlon o dan Gyfraith y DU ac Ewrop. Y ffordd orau o sicrhau nad yw hyn yn digwydd yw defnyddio awdurdodau lleol, manwerthwyr a mannau gollwng cymeradwy eraill a bydd yr offer trydanol yn mynd i ailddefnyddwyr ac ailgylchwyr cymeradwy a rheoledig yn y DU.
- **Beth ydw i'n ei wneud gyda fy *vapes* neu batris?**
  - Mae llawer o fatris a ddefnyddir mewn offer trydanol yn cynnwys lithiwm-ion a all achosi tanau pan byddant yn cael eu malu neu eu difrodi yn y llif gwastraff. Dylid ailgylchu pob offer trydanol, gan gynnwys *vapes* a batris bob amser ar wahân i'ch sbwriel cyffredinol a'ch ailgylchu.
  - Mae llawer o siopau'n cynnig cymryd batri neu *vape* yn ôl - edrychwch ar y dynodydd safle i ddod o hyd i'ch man gollwng lleol.
- **Mae angen car i fynd i fy nghanolfan ailgylchu lleol, does gen i ddim car**
  - Mae manwerthwyr fel Curry's, B&Q a John Lewis yn cynnig cymryd eitemau yn ôl. Edrychwch i weld a oes un yn eich ardal chi. Neu defnyddiwch y dynodydd lleoliad ailgylchu i weld a oes gan eich awdurdod lleol wasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd neu ar y stryd.
- **Does gen i ddim amser**
  - Rhowch eich offer trydanol mewn bag ac arhoswch nes bod y bag yn llawn i fynd i'ch safle gollwng lleol - edrychwch i weld a oes un ar eich ffordd i'r gwaith, neu'r siopau.

Beth am fy data?

- Mae'n bwysig diogelu eich data personol. Mae Recycle Your Electricals / Ailgylchu eich Offer Trydanol wedi creu **canllaw dileu data**, a ddatblygwyd gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a We Fight Fraud, i'ch helpu i ddileu eich dyfeisiau cyn eu trosglwyddo i'w rhoi neu eu hailgylchu. Gallwch ddod o hyd iddo ar eu gwefannau.